Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Home Address Ltd**

**Abergwaun**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

31/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Home Address Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Home Address Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Mehefin 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae hwn yn wasanaeth sy'n cynnig cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd wedi'i deilwra at yr unigolyn gan dîm bach o weithwyr gofal sy'n llawn cymhelliant ac wedi'u hyfforddi'n addas. Caiff y tîm ei arwain gan reolwr profiadol ac unigolyn cyfrifol sydd wedi pennu gwerthoedd y gwasanaeth ac sy'n rhoi ffocws cryf ar ansawdd. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn gallu cyfrannu at y broses o gynllunio gofal chymorth yr unigolion.

Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i wneud pethau sy'n bwysig iddynt, ac mae'r cofnodion gofal yn gynhwysfawr ac yn helpu i lywio'r gofal a'r cymorth.

Mae'r gwasanaeth yn ddibynadwy ac yn hyblyg, a gall y bobl gael gofal a chymorth yn Gymraeg ac yn Saesneg gan fod nifer mawr o'r gweithwyr gofal yn siarad y ddwy iaith.

## Llesiant

Mae’r bobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod cyn belled â phosibl. Gall y gweithwyr gofal adnabod unrhyw bryderon diogelu a rhoi gwybod amdanynt, ac maent yn hyderus y byddai'r rheolwr yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu.

Gall y bobl, i ryw raddau, gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg os byddant yn dewis hynny. Mae rhai o'r gweithwyr gofal yn siarad Cymraeg ac mae gan eraill ddealltwriaeth sylfaenol o'r Gymraeg.

Mae'r cydberthnasau rhwng y bobl a'r rhai sy'n rhoi cymorth iddynt yn dda iawn. Mae'r gweithwyr gofal yn ymrwymedig iawn i'w gwaith ac yn ceisio gwneud eu bywydau yn well. Dangosir lefel uchel o barch at y bobl a disgrifiodd un o'r gweithwyr ei waith a'r rhai y mae'n rhoi cymorth iddynt drwy ddweud “*I love it, I feel I make a difference…I try to make sure they know their self worth”.* Ceir awyrgylch hamddenol a threfnus yn y gwasanaeth. Nid yw'r gweithwyr gofal yn cael eu brysio ac maent yn cael yr amser sydd ei angen arnynt i roi cymorth i'r bobl mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r amgylchedd ffisegol yn cyfrannu, i ryw raddau, at lesiant y bobl. Mae rhai buddsoddiadau mawr wedi'u gwneud ac mae gwaith pellach wedi'i gynllunio. Mae rhai rhannau o'r gwasanaeth wedi dyddio, ond mae'n lân ac yn gartrefol a gall y bobl fynegi eu barn am y ffordd y caiff ei addurno.

Mae gan y bobl lais a gallant arfer dewis. Mae hyn yn cynnwys treulio amser gartref yn ogystal ag yn yr ardal leol, naill ai'n gweithio neu'n dilyn eu diddordebau a'u hobïau. Mae'r gweithwyr gofal yn hyblyg ac yn gweithio shifftiau er mwyn diwallu anghenion y bobl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cydberthnasau rhwng y bobl a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yn dda iawn. Mae cyfeillgarwch naturiol ymysg y bobl sy'n dangos bod cydberthnasau cryf wedi'u meithrin. Mae'r gweithwyr gofal yn llawn cymhelliant, a siaradodd un ohonynt yn gynnes am y bobl a *“the bond we have* with each other”, gan ychwanegu “we are like a family”.

Mae'r cofnodion gofal yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Ceir cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys gofal cymdeithasol ac emosiynol; anghenion gofal iechyd corfforol a chynlluniau cefnogi ymddygiad. Mae asesiadau risg hefyd ar waith ar gyfer cynnal amgylchedd diogel, ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd a threulio amser yn y gymuned. Mae'r dyddiaduron gweithgareddau dyddiol yn cynnwys gwybodaeth am sut mae'r bobl yn treulio eu hamser a'u gofal dyddiol a chânt eu hysgrifennu ar y pryd drwy ap electronig. Mae'r cofnodion hyn yn helpu i lywio cynlluniau gofal a chymorth unigol y bobl. Teimla'r gweithwyr gofal fod y cofnodion yn ddefnyddiol a'u bod yn cael amser i'w darllen.

Mae'r cofnodion yn dangos bod anghenion iechyd corfforol y bobl yn cael eu diwallu. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol yn ôl yr angen, ac mae'r rhan fwyaf o apwyntiadau deintyddol ac optegol rheolaidd yn gyfredol. Mae nyrs ardal yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn gallu trafod unrhyw bryderon sydd ganddynt â hi.
Mae'r gweithwyr gofal yn gallu nodi arwyddion briwiau pwyso ar y croen ac yn dweud eu bod yn adnabod y bobl yn dda, sy'n golygu eu bod yn gallu gweld pan fydd pobl yn anhwylus neu pan fydd angen sylw meddygol arnynt.

Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae hyn yn cynnwys gwaith gwirfoddol, mynd i ganolfannau dydd lleol a grwpiau cymunedol lleol eraill. Dywedodd un person ei fod yn mwynhau tynnu lluniau yn yr ardal leol a mynd i'w hoff leoedd. Mae rhai o'r bobl yn hapus yn helpu gartref, ac mae hyn yn cynnwys glanhau a pharatoi prydau, ac yn ystod yr arolygiad, roedd un person wrthi'n mwynhau pobi cacennau ac un arall yn gwneud cerdyn.

Ceir rhywfaint o ddealltwriaeth o bwysigrwydd maeth da. Caiff prydau eu gwneud gan ddefnyddio cynhwysion ffres yn bennaf, a phrin yw'r ddibyniaeth ar fwyd wedi'i brosesu. Mae gan y bobl rywfaint o ddewis dros eu prydau bwyd ac mae'r gweithwyr gofal yn hyblyg i fodloni dewisiadau'r bobl. Mae'r gegin yn newydd ac yn ardal gymdeithasol yn y gwasanaeth. Caiff rhai o'r bobl eu hannog a'u cefnogi i gyrraedd a chynnal pwysau iach, ond caiff dewisiadau personol eu parchu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae'n lân, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mewn cyflwr addurniadol eithaf da. Mae gwaith sylweddol wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys gosod to newydd â phaneli solar, cegin newydd, a swyddfa newydd i'r rheolwr y tu allan i'r prif adeilad. Bwriedir gwneud gwaith ailaddurno y tu mewn a byddai rhoi rhagor o sylw i fanylion yn gwella'r amgylchedd ymhellach.

Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli â darnau o ddodrefn, ffotograffau ac ornamentau eraill. Mae digon o ystafelloedd ymolchi a thoiledau cymunedol, sy'n golygu bod y bobl yn gallu defnyddio'r cyfleusterau hyn yn hawdd.

Mae'r gweithwyr gofal yn gyfrifol am gadw'r gwasanaeth yn lân ac maent yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i wneud hyn. Mae safon y glanhau yn dda, ac mae'r bobl yn helpu lle y bo'n bosibl.

Ceir lolfa ac ardal fwyta lle y gall y bobl dreulio amser gydag eraill, ac mae lle i gadair freichiau ym mhob ystafell wely sy'n golygu bod y bobl yn gallu treulio amser yn gyfforddus yn eu hystafell os byddant yn dewis gwneud hynny.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae rhai trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i fonitro ansawdd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cadw mewn cysylltiad â'r rheolwr bron pob dydd. Mae'r adroddiad a luniwyd gan yr unigolyn cyfrifol yn dangos yr ymgynghorir â'r bobl a'r gweithwyr gofal am y gwasanaeth. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn gynhwysfawr ac yn fyfyriol, ond mae'n cynnwys dyfyniadau o adroddiadau blaenorol AGC a allai fod yn gamarweiniol.

Cynhelir cyfarfodydd goruchwylio ac mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael adborth adeiladol ar eu gwaith. Fel rhan o'r cyfarfodydd goruchwylio, caiff y gweithwyr gofal eu hannog i feddwl am eu hanghenion hyfforddi a datblygu, myfyrio ar eu perfformiad ac ystyried cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal â'r cyfarfodydd goruchwylio ffurfiol, gall y gweithwyr gofal siarad â chydweithwyr a rheolwyr yn fwy anffurfiol, ac maent yn hyderus y byddant yn cael ymateb amserol a defnyddiol. Caiff arfarniadau blynyddol hefyd eu cynnal gyda'r gweithwyr gofal.

Mae ffocws da ar ddatblygiad proffesiynol ac mae'r gweithwyr gofal yn dweud eu bod wedi cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r matrics yn dangos bod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn gyfredol ac yn ymdrin ag amrywiaeth o feysydd fel cymorth cyntaf, cadw cofnodion ac ymddygiad heriol.

Caiff gweithwyr gofal eu penodi drwy ddilyn proses recriwtio ddiogel. Mae'r ffeiliau yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Maent yn cynnwys geirdaon addas a gwiriadau diogelwch yn ogystal â chofnod o gyfnod ymgyfarwyddo a sefydlu cyfarwydd cyn iddynt ddechrau gweithio yn y gwasanaeth.

Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn dweud eu bod yn gweithio'n dda fel tîm a bod sgiliau a syniadau aelodau newydd o staff yn ategu sgiliau a syniadau'r gweithwyr gofal profiadol iawn. Gallant godi unrhyw syniadau neu bryderon ac yn hyderus y byddant yn cael ymateb amserol a defnyddiol.

Mae'r cofnodion gofal a ffeiliau'r staff wedi cael eu storio'n ddiogel.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/09/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/09/2024